2·38

# CAN ALARUS,

AM Y

## DDAMWAIN DDYCHRYNLLYD

A GYMMERODD LE

## YN MAESTEG,

**SWYDD FORGANWG,** Boreu dydd Sadwrn Rhagfyr **26, 1863.** trwy yr hon y collodd 14 eu bywydau gwelir eu henwai y tu arall i'r ddalen.

---

GAN E. GRIFFITHS, (*Ieuan o Eifion.*

---

Ar y Dôn "Bryniau Iwerddon."

---

## FEARFUL COLLIERY EXPLOSION AT MAESTEG.

Anotber terrible explosion, resulting in the death of fourteen men, occurred on Saturday morning last, at the Gin pit, the Llynvi Valley Coal Company, at Maesteg, in this County. The explosion took place at about seven o'clock in the morning. and of course produced the ntmost consternation among the inhabitants of the district. So far very little is known as to the causes of this sad disaster, and we are unwilling to make any guesses which might prejudice the public npon a matter which will, we have no doubt, be thoroughly sifted by the coroner's duty

6819.

Mr Thomas Evans, the Goverment Inspector of Mines, visited the pit on Sunday. On Mouday the inquest (upon the body of David Williams, one of the men killed) was opened before Alexander Cuthberston, Esq., coroner, at the Odd Fellow's Arms, Maesteg, Mr. W. B. Popkin Chemist, being foreman of the jury.

The names of some of those who were killed are given below: William Elias (married), John Bevan who as left a wife and three children), David Williams and his son Thomas Williams. David Rees (married) Morgan Thomas, W. Davies, Bemjamin Rees, William Jones, David Jones, (all single) William Isaac, David Thomas, and David John.

Yn awr y Cymry anwyl yn syful cydneshewch,
Trwm newydd gyda theimlad ar ganiad yma gewch;
Sy'n dod o hyd i'n clustiau mae'n ddiau nos a dydd;
Nes gyru rhai ugueiniau yn awr a,u bronnau'n brydd.

Mae amryw ffyrdd gan angau i'n gyru oll o'r byd
Rhai gan goed a chreigiau yn ddarnau mân i gyd;
Ac eraill ga'dd eu boddi mewn trwm galedi mawr
A rhai gan dân er galar yn eigion daear lawr.

Y chweched dydd ar hugain y bu y ddamwain hon,
Y damp a daniaa 'n ddiaa nes peri briwiau bron
Yn ngwaeth Maesteg mae'n eglur neu'r Llyni gelwir hwn
O'i herwydd gwelir llawer yn awr mewn dirfawr bwn

X205206017

Un deg a phedwar yno bydd cofio am y gwaith,
Ei gyru mewn prysurdeb i'r tragwyddoldeb maith
Fe'i cafwyd oll yn feirw oer chwerw garw gur :
Am hyn y gwelir galar mae'n wir am amser hir

Hwy aeth ant at eu gorchwyl yn fanwl tna,r fan,
Heb feddwl fod fath ddiwedd mor rhyfedd ar eu rhan,
Ond braidd cyn dechreu gweithio y damp wnae fflam-
io'n llym :
Rhwng saith ac wyth y boreu daeth angeu yn ei rym.

Y tan yn gwau trwy'r gwaelod mor hynod yn y lle,
A'r glowyr yn y ddalfa heb noddfa dan y Ne ;
Pa fodd y gwnawn ddychmygu eu trwm galedi hwy,
Pan oedd y sylfer drewllyd yn mynd a'i bywyd hwy.

Y newydd hwn ymdaeuodd yn fuan trwy bob lle,
Fe rhedodd yno ganoedd yn union mae,n ddible,
Rhai am eu gwyr a wylant a rhai am blant yn wir ;
Pa galon nawr na thoddai wrth weled dagrau clir

Dychmygaf pan y taniodd fod yno ddychryn mawr
Pawb chwilia am le i gilio ynghelloedd daear lawr.
Ond ofer bu'r ymdrechfa ynghanol mwg a than ;
Hwy gawsant loesion chwerwon yn fawrion ac yn fân.

Gwyr dewr i'r pwll a aethant a chwiliant yno'n llwyr,
Caed amryw gyrph oddiyno y noson hono'n hwyr :
Yr oedd eu holl berth'nasau yn wylo dagrau dwys
Au ffryndiau yn galaru dan boenau O!'r fath bwys,

Cynhaliwyd cwest y crwner ar gyrph y glowyr gwiw ;
Eu barn mae'r damp a'i gyrodd i gyd o dir y byw :
A rhai gadd waredigaeth o safn marwolaeth drist,
A fyddo'n uchel waeddi am rhan yn Iesu Grist.

Fe rhoddwyd i'r rhan farwol i orwedd yn y pridd,
I aros hyd nes delo'r adgyfodiad ddydd ;
Gobeithio i'w eneidiau gael noddfa yn y nef ;
Au bod hwy yno'n canu clod byth iw enw ef.

Nawr gymry glan y gwledydd boed rhybydd i bob
rhyw,
Gwnawn geisio Iesu beunydd ai grefydd tra bo'm byw
'Nol hyn pan ddelo angeu i'n gyru oll dan len :
Cawn dderbyn coron enraiaidd mewn mawredd mwy
Amen.

